

# Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt Builth Wells Primary School



Hospital Road  
Builth Wells  
Powys  
LD2 3GA  
Tel: (01982) 553600  
Email: [office@builth.powys.sch.uk](mailto:office@builth.powys.sch.uk)  
Website: [www.builth.powys.sch.uk](http://www.builth.powys.sch.uk)

Prifathro / Headteacher: Mr. Gareth Cornelius

Mis Hydref 30ain 2020

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

Mae'n siŵr y byddwch yn ymwybodol y bydd pob ysgol gynradd yng Nghymru yn aros ar agor drwy gydol y cyfnod 'seibiant tân' 2 wythnos hwn. Felly, byddwn yn ailagor ar Ddydd Llun 2il Tachwedd a byddwn yn disgwyl torri ar gyfer y Nadolig ar Ddydd Gwener 18fed Rhagfyr.

Cofiwch y byddwn yn parhau i gadw'n agos at ganllawiau Llywodraeth Cymru i gadw'r ysgol yn ddiogel. Helpwch ni i leihau'r risgiau i'r gymuned drwy gadw at y trefniadau gollwng a chasglu arferol. Cofiwch, dim ond un oedolyn ddylai ddrod ar yr iard ar y buarth i gasglu'r plant ar ddiwedd y dydd.



Os byddwch yn cyrraedd mewn car, er diogelwch i bawb, mae'n hanfodol eich bod yn cadw at y terfyn cyflymder 5mya ac yn defnyddio'r manau parcio ceir. Peidiwch â gollwng plant yn y ffordd o flaen yr ysgol. Gwnewch yn siŵr hefyd fod y neges hon yn cael ei rhannu gydag unrhywun arall sy'n gollwng neu'n casglu eich plant.

Yr ydym yn cadw at y canllawiau ar awyru mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Rydym yn disgwyl i'r canllawiau hyn gael eu diweddarau wrth i ni nesáu at y gaeaf ond, am nawr o leiaf, byddwn yn eich annog i sicrhau bod gan eich plentyn haenau ychwanegol o ddillad – naill ai ar ben eu gwisgoedd ysgol neu oddi tanynt – a'u bod yn gwisgo dillad cynnes ar gyfer Ymarfer Corff. Gwnewch yn siŵr bod y wisg ysgol wedi'i labelu'n glir.



Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw un o'r symptomau sy'n gysylltiedig â covid-19, cysylltwch â'r ysgol cyn gynted ag y bo modd. Os ydy hyn y tu allan i oriau ysgol arferol, cysylltwch â ni drwy ein cyfeiriad e-bost covid penodedig [covid@builth.powys.sch.uk](mailto:covid@builth.powys.sch.uk).



Siarter Iaith  
Wobr Arian

Cyd-ddysgwn, Cydlwyddwn  
Together We Learn, Together We Achieve



Ysgol Efydd  
Cymraeg Campus



**Bydd Clwb Brecwast Bore Da a Chlwb Gwenyn Prysus** yn parhau i redeg o Ddydd Llun i Ddydd Gwener drwy gydol y tymor. Rhowch wybod i ni ymlaen llaw os hoffech archebu lle.



Cofiwch fod yn rhaid lanlwytho pob cais ar gyfer **cystadleuaeth Cerfio Pwmpen, Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt**, i J2E ar Hwb erbyn Dydd Llun 2il Tachwedd. Os na allwch gael mynediad i Hwb, anfonwchy lluniau ar e-bost i'r swyddfa. Cofiwch anfon tâl o £1 i ddsbarth eich plentyn.

### 'Darllen Deg Drwy Dachwedd' / 'Remember, Remember to Read in November'

Mae manylion am ein her ddarllen yr Hydref i roi hwb i bob disgybl yn atodedig.



Cofiwch gadw golwg am ddiweddariadau rheolaidd a negeseuon Facebook gan **Bwyllgor Busy Bees a Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt** sy'n brysur yn trefnu digwyddiadau cyn y Nadolig. Rydym yn dal i obeithio denu mwy o aelodau i Bwyllgor Busy Bees yn arbennig ond mae croeso mawr bob amser i wynebau newydd yn y ddau.

Cofiwch y gallwch ddod o hyd i gopiâu o gylchlythrau a llawer o wybodaeth ddefnyddiol arall ar wefan ein hysgol.

Diolch yn Fawr,

*G. Cornelius*



Siarter Iaith  
Wobr Arian

Cyd-ddysgwn, Cydlwyddwn  
Together We Learn, Together We Achieve



Ysgol Efydd  
Cymraeg Campus



Siarter Iaith  
Wobr Arian

Cyd-ddysgwn, Cydlwyddwn  
Together We Learn, Together We Achieve



Ysgol Efydd  
Cymraeg Campus